Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Iau, 12 Gorffennaf 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Minutes of the Finance Committee held at Groeslon Village Hall, Thursday 12th July 2018 at 7.00pm

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; David C Davies; Bryn Williams; Eddie Willcox

David Roberts, Clerc/Clerk.

1 Ethol Cadeirydd – Election of Chairman

Etholwyd Cyng. Gerwyn Owen fel Cadeirydd o'r Pwylgor Cyllid am y flwyddyn i Mai 2019. Diolchodd i'r aelodau am ymddiried ynddo. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Aeth yn syth yn ei flaen at y rhaglen.

i

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. Hywel J Owen.

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declerations made by any member on any items on the agenda

4 Cyllideb 2018-19 – Adolygiad Chwarter Cyntaf – 2018-19 Budget First Quarter Review

Dosbarthwyd gopiau o'r canlynol i pob aelod

- Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2018 I 30 Mehefin 2018
- Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2018
- Y Gyllideb yn erbyn Gwir Wariant 30 Mehefin 2018 ac Ymrwymiadau at 31 Mawrth 2019
- Balansau y Cyngor ar 30 Mehefin 2018
- Datganiadau Banc (y ddau gyfrif) at 30 Mehefin 2018

'Roedd y Clerc eisoes wedi anfon copiau o'r uchod i pob aelod ymlaen llaw.

Gofynnwyd ambell i gwestiwn gan yr aelodau acrhai o'r ffigyrau ac roeddynt yn fodlon gyda ymateb y Clerc.

Cymeradwywd y papurau ac fe'i arwyddwyd gan Cadeirydd y Pwyllgor

Aethpwyd ati i edrych ar holl bennawdau y gyllideb lein wrth lein ynghyd a balansau y Cyngor.

Pennawdau a drafodwyd

Cyflog y Clerc – dim ymrwymiad ar gyfer arfarnnu'r swydd. Posib cost ychwanegol o £3,000. Panel Gwaith y Clerc yn cyfarfod yn fuan i roi argymhelliad i'r Cyngor llawn.

Lloches Bws Cae'r Moel - anfoneb wedi cyrraedd gan Elfyn Ellis am £6,770 ac amcanyfrif am waith y pensaer yn £400. Gwir wariant felly yn £7,170 yn erbyn £6,000 oedd yn y balansau . Gorwariant o £1,200. I'w ariannu o "Datblygiadau"

Adroddiad Llochesi Bws – £2,000 mewn Cronfa. Argymell trosglwyddo'r arian o balansau i'r gyllideb ac ei ychwanegu I'r pennawd "Datblygiadau 2018-19". Angen

Cyfraniad gan Grwp Cyswllt Chwarel Moell Tryfan (CCSQ) - £200 wedi cyrraedd gan CCSQ. Argymell ei drosgwlyddo I ariannu gorwariant LLoches Bws Cae'r Moel.

Gwaith Ymgysylltu - £1,500 yn y balansau. Trosglwyddo i r gyllideb. Cost prynu gwasanaeth arbennigol ddim yn hysbys eto. Rhagwelir y bydd angen arian o'r pennawd datblygiadau I ariannu'r gwaith fydd uwchlaw'r £1500 sydd wedi ei glustnodi.

Datblygiadau Gwariant 2018-19 – Cyllideb cychwynol yn £5,000 ar gyfer gwaith datblygol yn y flwyddyn yn benodol ail-leoli lloches bws Gardd y Coleg, Carmel. Bydd rhaid ystyried llitho y gwaith i 2019-20, yn amodol ar y costau. Aelodau yn argymell darparu cynlluniau ar gyfer lail-leoli llochesi Carmel a Fron, ac ystyried y prisau cyn ymrwymo I gyflawni'r gwaith.
Argymelliad yr aelodau oedd-

- Ariannu Gorwariant Lloches Cae'r Moel (£1,170) o'r pennawd hwn
- Ychwanegu i'r pennawd – Cyfraniad CCSQ £200 - ei drosglwyydo yn erbyn gorwariant lloches Caer Moel. Dim ymrwymiad ar unrhyw waith pellach ar llochesi bws
- Ychwanegu i'r pennawd – Trosglwyddo £2,000 Adroddiad Llochesi Bws
- Ychwanegu I'r Pennawd – Trosglwyddio tanwariant heb ymrwymiad o 2017-18 £1,467.24
- Byddai hyn yn gadael cyfanswm o £7,497.24 ar y pennawd – ar gyfer gwaith ymgysylltu, cost arfarnu cyflog y clerc ac unrhyw waith datblugol ar llochesi bws.

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -l

Cysoniad y Banc i 30 Mehefin 2018 / Bank Reconiliation to 30 June 2018	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin/June 2018 – Balances in the Bank	(£37,186.64)
- Llai Credydwyr a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£10,898.48
+ Dyledwyr / Debtors	(£3,338.04)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Mehefin 2018 / Sub Total	**(£29,626.20**)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	(£24,000.00)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£53,626.20**)
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£50,991.44)
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2019/ Income due to 31 March 2019	(£3,365.24)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£6,000.00)**
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	£6,000.00
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2019 / Total Overspent (u spend expected as at 31 March 2019	(**dim)**

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2018 / Specific Funds as at 30 June 2018	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£1,000.00)
Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds	**(£6,000.00)**

Argymhelliad i'r Cyngor-

i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel a nodwyd

ii) Fod y Cyngor yn cytuno i drosglwyddo £2,000 ar gyfer Adroddiad Llochesi o'r balansau i'r gyllideb dan y pennwad "Datblygiadau 2018-19"

iii) Fod y Cyngor yn cytuno i drosglwyddo £1,467.24 sydd yn y balansau i'r gyllideb dan y pennawd "Datblygiadau 2018-19"

iv) Fod y Cyngor yn defnyddio rhodd CCSQ o £200 i gyfrannu at gorwariant lloches Cae'r Moel.

v) Fod y Cyngor yn cytuno i ariannu gorwariant lloches bws Cae'r Moel o £970 (gorwariant yn £1,170 llai £200) yn erbyn y pennawd "Datblygiadau 2018-19 "

vi) Fod y Cyngor yn cytuno i gadw £7,497.24 ar y pennawd "datblygiadau" i ariannu

1) ***cynlluniau ar gyfer lloches bws Y Fron a Gardd y Coleg, Carmel***
2) ***gwaith ymgysylltu (uwchlaw swm o £1,500 sydd yn y gyllideb)***
3) ***cost arfarnnu swydd y Clerc***

Recommendaton to the Council-

i) That the Council accepts that the balances as noted are correct

ii) That the Council agrees to transfer £2,000 earmarked in the balances for Bus Shelter Reports to the 2018-19 Revenue Budget under the heading "Developments"

iii) That the Council agrees to transfer £1,467.24 from balances to the 2018-19 Revenue Budget under the heading "Development"

iv) That the Council earmarks the £200 received from CCSQ to contribute towards the overspend on the Cae'r Moel bus shelter.

v) That the Council agrees to finance the overspend on the Cae'r Moel bus shelter of £970 from the heading "Developments"

vi) That the Council agrees to keep £7,497.24 under the heading "Developments" to finance

1) ***drawings for the Fron and Carmel (Community Garden) bus shelters***
2) ***additional work on the consulting public with the process (beyond the £1,500 that is in the budget)***
3) ***the cost of evaluating the Clerks job description***

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	